WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Dyddiad cyhoeddi: 2 Mawrth 2017

Adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru ar Gyngor Cymuned Mawr

Diolch am eich neges e-bost dyddiedig 24 Chwefror 2017, lle y gwnaethoch ofyn am y canlynol:

‘copi o'r ddwy Ddogfen Archwilio a oedd yn hynod feirniadol o'r Cyngor Cymuned [Mawr] yn 2001 ac unwaith eto yn 2015’.

Nid wyf wedi gallu dod o hyd i adroddiad yn ymwneud â Chyngor Cymuned Mawr a gyhoeddwyd gennym ni (nac unrhyw gorff archwilio arall) yn 2001. Cyhoeddodd yr archwilydd penodedig ddau adroddiad ar Gyngor Cymuned Mawr: un yn 2011 a'r llall yn 2015. Mae'r rhain ar gael ar ein gwefan: adroddiad 2011 ac adroddiad 2015.

Rwyf wedi trosglwyddo eich sylwadau am yr Ymddiriedolaeth Datblygu a gweithrediad y Cyngor i'r cydweithwyr perthnasol er mwyn iddynt eu hystyried wrth gynnal gwaith archwilio yn y dyfodol.

Nid wyf wedi defnyddio unrhyw eithriadau. Fodd bynnag os bydd gennych unrhyw ymholiadau am y ffordd yr wyf wedi ymdrin â'ch cais, anfonwch e-bost neu ysgrifennwch ataf.

Yn gywir,